

CLA(5)-34-19 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-34-19 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 28 Tachwedd 2019

3.2 SL(5)475 – Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 77 – 94)

CLA(5)-34-19 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)-34-19 – Papur 7 – Rheoliadau

CLA(5)-34-19 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-34-19 – Papur 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 28 Tachwedd 2019

3.3 SL(5)476 – Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 95 – 110)

CLA(5)-34-19 – Papur 10 – Adroddiad

CLA(5)-34-19 – Papur 11 – Rheoliadau

CLA(5)-34-19 – Papur 12 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-34-19 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 28 Tachwedd 2019

3.4 SL(5)477– Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 111 – 119)

CLA(5)-34-19 – Papur 14 – Adroddiad

CLA(5)-34-19 – Papur 15 – Gorchymyn

CLA(5)-34-19 – Papur 16 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.5 SL(5)473 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

(Tudalennau 120 – 146)

CLA(5)–34–19 – Papur 17 – Adroddiad

CLA(5)–34–19 – Papur 18 – Rheoliadau

CLA(5)–34–19 – Papur 19 – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)–34–19 – Papur 20 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru,
26 Tachwedd 2019**

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Ionawr 2020

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 09 Rhagfyr 2019

SL(5)472 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu bod gwerth ardrethol hereditament annomestig yn cael ei ystyried yn swm sy'n hafal i'r rhent yr amcangyfrifir y gellid disgwyl yn rhesymol gosod yr hereditament amdano o flwyddyn i flwyddyn (yn ddarostyngedig i ragdybiaethau penodedig).

Yn yr achosion hynny pan nad oes gwybodaeth ar gael am y farchnad rentu gyffredinol ac na ellir defnyddio elw na cholled fel awgrym o werth rhent, penderfynir, yn hytrach, ar werth ardrethol hereditament annomestig drwy 'ddatgyfalafu' cyfanswm gwerth cyfalaf amcangyfrifedig yr hereditament i'w droi'n werth cyfatebol i rent blwyddyn. Rhagnodir y cyfraddau datgyfalafu drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer ardrethu annomestig a ragl nodir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cyfradd datgyfalafu is o 1.9 y cant ar gyfer eiddo addysgol, eiddo iechyd, eiddo amddiffyn ac eiddo cyfleustra cyhoeddus a chyfradd safonol o 3.8 y cant ar gyfer pob math arall o eiddo.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 25 Tachwedd 2019

Fe'u gosodwyd ar: 26 Tachwedd 2019

Yn dod i rym ar: 27 Ionawr 2020



Item 3.1 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â Chymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Reoliad yr UE 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan Reoliad yr UE 2017/625.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Nodwn y torri'r rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, [mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Tachwedd 2019](#).

Yn benodol, nodwn yr hyn a ddywed y llythyr am y Rheoliadau hyn, eu bod "yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol" ac, os na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2019, "ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru'r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid."

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y broses o ddrafftio'r Rheoliadau hyn wedi'i gohirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch statws y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.



Cynghorwyr Cyfreithiol
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
3 Rhagfyr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Tudalen y pecyn 3

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1482 (Cy. 266)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a
Bwyd (Cymru) (Diwygiadau
Amrywiol) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran Cymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1), a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan y Rheoliad hwnnw.

Mae rholiad 2 yn diwygio Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001 (O.S. 2001/1440 (Cy. 102)).

Mae rheoliadau 3 i 7 yn diwygio Rheoliadau Hyllendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy. 5)).

Mae rheoliadau 8 i 33 yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)).

Mae rheoliadau 34 i 37 yn diwygio Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1605 (Cy. 186)).

Mae rholiad 38 yn diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/479 (Cy. 55)).

Mae rheoliadau 39 i 41 yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/387 (Cy. 121)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1482 (Cy. 266)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a
Bwyd (Cymru) (Diwygiadau
Amrywiol) 2019

Gwnaed 27 Tachwedd 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 28 Tachwedd 2019

Yn dod i rym 14 Rhagfyr 2019

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas ag—

- (a) mesurau mewn cysylltiad â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(2);

-
- (1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.
- (2) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

- (b) mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd(1);
- (c) mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i—

- (a) unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(3) at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn, a
- (b) unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(4) at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn,

gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

(1) O.S. 2008/1792.

(2) O.S. 2010/2690.

(3) O.S. 2006/31 (Cy. 5), yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2010/893 (Cy. 92), O.S. 2012/1765 (Cy. 225), O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/1858 (Cy. 192), O.S. 2016/845 (Cy. 214) a ac O.S. 2018/806 (Cy. 162). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/1046 (Cy. 185).

(4) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2652 (Cy. 220), O.S. 2011/626 (Cy. 90), O.S. 2011/1043, O.S. 2013/479 (Cy. 55), O.S. 2013/3007 (Cy. 298), O.S. 2013/3049 (Cy. 308), O.S. 2014/2714 (Cy. 271), O.S. 2016/386 (Cy. 120), O.S. 2016/387 (Cy. 121), O.S. 2018/40 (Cy. 12), O.S. 2018/806 (Cy. 162), O.S. 2018/968 (Cy. 195) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102) ac O.S. 2019/1046 (Cy. 185).

(5) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2019.

Diwygio Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001

2. Yn Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001(1), yn rheoliad 7 (cosbi a gorfodi), ym mharagraff (3), yn lle “Atodiad 3 i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid ei wirio” rhodder “Atodiad 3 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion”.

Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

3. Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

4. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o “Rheoliadau'r Gymuned” rhodder—

“ystyr “Rheoliadau'r Gymuned” (*“the Community Regulations”*) yw Rheoliad 852/2004, Rheoliad 853/2004, Rheoliad 2073/2005, Rheoliad 2015/1375, Rheoliad 2017/185, Rheoliad 2017/625 a phhecyn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y mae ef ac y maent hwy yn gymwys i fwyd;”;

(ii) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau “mae i “Penderfyniad 2006/766”” rhodder—

“mae i “Cyfarwyddeb 2004/41” (*“Directive 2004/41”*), “Rheoliad 178/2002” (*“Regulation 178/2002”*), “Rheoliad 852/2004” (*“Regulation 852/2004”*), “Rheoliad 853/2004” (*“Regulation 853/2004”*), “Rheoliad 1688/2005” (*“Regulation 1668/2005”*), “Rheoliad 2073/2005” (*“Regulation 2073/2005”*), “Rheoliad 2074/2005” (*“Regulation*

(1) O.S. 2001/1440 (Cy. 102), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

2074/2005”), “Rheoliad 931/2011”
 (“*Regulation 931/2011*”), “Rheoliad
 1169/2011” (“*Regulation 1169/2011*”),
 “Rheoliad 28/2012” (“*Regulation*
 28/2012”), “Rheoliad 208/2013”
 (“*Regulation 208/2013*”), “Rheoliad
 210/2013” (“*Regulation 210/2013*”),
 “Rheoliad 579/2014” (“*Regulation*
 579/2014”), “Rheoliad 2015/1375”
 (“*Regulation 2015/1375*”), “Rheoliad
 2017/185” (“*Regulation 2017/185*”),
 “Rheoliad 2017/625” (“*Regulation*
 2017/625”), “Rheoliad 2018/329”
 (“*Regulation 2018/329*”), “Rheoliad
 2018/631” (“*Regulation 2018/631*”),
 “Rheoliad 2019/66” (“*Regulation*
 2019/66”), “Rheoliad 2019/478”
 (“*Regulation 2019/478*”), “Rheoliad
 2019/530” (“*Regulation 2019/530*”),
 “Rheoliad 2019/624” (“*Regulation*
 2019/624”), “Rheoliad 2019/625”
 (“*Regulation 2019/625*”), “Rheoliad
 2019/626” (“*Regulation 2019/626*”),
 “Rheoliad 2019/627” (“*Regulation*
 2019/627”), “Rheoliad 2019/628”
 (“*Regulation 2019/628*”), “Rheoliad
 2019/723” (“*Regulation 2019/723*”),
 “Rheoliad 2019/1012” (“*Regulation*
 2019/1012”), “Rheoliad 2019/1013”
 (“*Regulation 2019/1013*”), “Rheoliad
 2019/1014” (“*Regulation 2019/1014*”),
 “Rheoliad 2019/1081” (“*Regulation*
 2019/1081”), “Rheoliad 2019/1602”
 (“*Regulation 2019/1602*”), “Rheoliad
 2019/1666” (“*Regulation 2019/1666*”),
 “Rheoliad 2019/1715” (“*Regulation*
 2019/1715”), “Rheoliad 2019/1793”
 (“*Regulation 2019/1793*”) a “Rheoliad
 2019/1873” (“*Regulation 2019/1873*”), yr
 ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn
 Atodlen 1;”;

(iii) yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “pecyn Rheoliad 2017/625” (“*the*
Regulation 2017/625 package”) yw
 “Rheoliad 2018/329”, “Rheoliad 2018/631”,
 “Rheoliad 2019/66”, “Rheoliad 2019/478”,
 “Rheoliad 2019/530”, “Rheoliad 2019/624”,
 “Rheoliad 2019/625”, “Rheoliad 2019/626”,
 “Rheoliad 2019/627”, “Rheoliad 2019/628”,
 “Rheoliad 2019/723”, “Rheoliad
 2019/1012”, “Rheoliad 2019/1013”,
 “Rheoliad 2019/1014”, “Rheoliad
 2019/1081”, “Rheoliad 2019/1602”,
 “Rheoliad 2019/1666”, “Rheoliad
 2019/1715”, “Rheoliad 2019/1793” a
 “Rheoliad 2019/1873”;”;

- (b) ym mharagraff (6), yn lle “fel y diwygir unrhyw atodiad iddo” rhodder “fel y’i diwygir”.

5. Yn rheoliad 5 (gorfodi), yn lle paragraff (6) rhodder—

“(6) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “lladd-dy” (“*slaughterhouse*”) yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda a thrin anifeiliaid, y mae eu cig wedi’i fwriadu i’w fwyta gan bobl, ac sydd wedi’i gymeradwyo neu wedi’i gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625;

ystyr “safle torri” (“*cutting plant*”) yw sefydliad a ddefnyddir ar gyfer tynnu esgyrn a/neu dorri cig ffres er mwyn ei roi ar y farchnad ac sydd wedi’i gymeradwyo neu wedi’i gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625;

ystyr “sefydliad trin anifeiliaid hela” (“*game-handling establishment*”) yw sefydliad lle caiff anifeiliaid hela a chig anifeiliaid hela a geir ar ôl hela eu paratoi i’w rhoi ar y farchnad ac sydd wedi’i gymeradwyo neu wedi’i gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 148 o Reoliad 2017/625.”

6. Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau hyn.

7. Yn Atodlen 3A (gofynion y cyfeirir atynt yn rheoliad 17(5)), ym mharagraff (d), yn lle “o dan Erthygl 5 o Reoliad 854/2004 fel y’i darllenir gyda phwynt 1 Rhan C o Bennod IX Adran IV o Atodiad I i’r Rheoliad hwnnw, eu harchwilio i weld a oes *Trichinosis* arnynt, yn digwydd yn y lladd-dy” rhodder “o dan Erthygl 18(2) o Reoliad 2017/625 fel y’i darllenir gydag Erthygl 31 o Reoliad 2019/627, eu harchwilio i weld a oes *Trichinella* arnynt yn unol ag Erthygl 2 o Reoliad 2015/1375”.

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

8. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

9. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn y diffiniad o “awdurdod cymwys”, yn lle “Rheoliad 882/2004” rhodder “Rheoliad 2017/625”;

- (ii) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" rhodder—

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*") , "Penderfyniad 2007/275" ("*Decision 2007/275*") , "Rheoliad 999/2001" ("*Regulation 999/2001*") , "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") , "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*") , "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") , "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1668/2005*") , "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*") , "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*") , "Rheoliad 2017/185" ("*Regulation 2017/185*") , "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*") , "Rheoliad 2018/329" ("*Regulation 2018/329*") , "Rheoliad 2018/631" ("*Regulation 2018/631*") , "Rheoliad 2019/66" ("*Regulation 2019/66*") , "Rheoliad 2019/478" ("*Regulation 2019/478*") , "Rheoliad 2019/530" ("*Regulation 2019/530*") , "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*") , "Rheoliad 2019/625" ("*Regulation 2019/625*") , "Rheoliad 2019/626" ("*Regulation 2019/626*") , "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*") , "Rheoliad 2019/628" ("*Regulation 2019/628*") , "Rheoliad 2019/723" ("*Regulation 2019/723*") , "Rheoliad 2019/1012" ("*Regulation 2019/1012*") , "Rheoliad 2019/1013" ("*Regulation 2019/1013*") , "Rheoliad 2019/1014" ("*Regulation 2019/1014*") , "Rheoliad 2019/1081" ("*Regulation 2019/1081*") , "Rheoliad 2019/1602" ("*Regulation 2019/1602*") , "Rheoliad 2019/1666" ("*Regulation 2019/1666*") , "Rheoliad 2019/1715" ("*Regulation 2019/1715*") , "Rheoliad 2019/1793" ("*Regulation 2019/1793*") a "Rheoliad 2019/1873" ("*Regulation 2019/1873*") , yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;" ;

- (iii) yn lle'r diffiniad o "y Darpariaethau Mewnforio" rhodder—

"ystyr "y Darpariaethau Mewnforio" ("*the Import Provisions*") yw Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, Pennod 5 o Deitl 2 o Reoliad 2017/625 a phhecyn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y mae ef ac y maent hwy yn gymwys i gynnyrch fel y'i diffinnir yn rheoliad 22;" ;

- (iv) yn y diffiniad o "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle

“Rheoliad 882/2004” rhodder “Rheoliad 2017/625 neu becyn Rheoliad 2017/625”;

(v) yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “becyn Rheoliad 2017/625” (*“the Regulation 2017/625 package”*) yw “Rheoliad 2018/329”, “Rheoliad 2018/631”, “Rheoliad 2019/66”, “Rheoliad 2019/478”, “Rheoliad 2019/530”, “Rheoliad 2019/624”, “Rheoliad 2019/625”, “Rheoliad 2019/626”, “Rheoliad 2019/627”, “Rheoliad 2019/628”, “Rheoliad 2019/723”, “Rheoliad 2019/1012”, “Rheoliad 2019/1013”, “Rheoliad 2019/1014”, “Rheoliad 2019/1081”, “Rheoliad 2019/1602”, “Rheoliad 2019/1666”, “Rheoliad 2019/1715”, “Rheoliad 2019/1793” a “Rheoliad 2019/1873”;

- (b) ym mharagraff (3), yn lle “Rheoliad 882/2004 neu Reoliad 669/2009”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “Rheoliad 2017/625 neu unrhyw un o’r Rheoliadau UE ym mhhecyn Rheoliad 2017/625”.

10. Yn rheoliad 3 (awdurdodau cymwys)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “Rheoliad 882/2004” rhodder “Rheoliad 2017/625”;
- (b) ym mharagraff (3), yn lle “Rheoliad 882/2004” rhodder “Rheoliad 2017/625”;
- (c) hepgorer paragraff (5);
- (d) ym mharagraff (6), yn lle “Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004, mae’r dynodiad yn ymestyn o ran Erthygl 31(2)(a) i (e),” rhodder “Erthygl 148 o Reoliad 2017/625, mae’r dynodiad yn ymestyn”.

11. Yn rheoliad 4 (cyfnewid a darparu gwybodaeth)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “Reoliad 882/2004” rhodder “Reoliad 2017/625”;
- (b) ym mharagraff (5), yn lle “Rheoliad 882/2004” rhodder “Rheoliad 2017/625”.

12. Yn rheoliad 5 (sichrau gwybodaeth)—

- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) yn lle “gorff rheoli” rhodder “gorff dirprwyedig”, ac yn lle “corff rheoli”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “corff dirprwyedig”;
- (ii) yn lle “Reoliad 882/2004” rhodder “Reoliad 2017/625”;
- (b) ym mharagraff (4), yn lle “corff rheoli” rhodder “corff dirprwyedig”, ac yn lle “gorff rheoli” rhodder “gorff dirprwyedig”.

13. Yn rheoliad 6 (pŵer i ddyroddi codau o arferion a argymhellir)—

- (a) ym mharagraff (1)(a), yn lle “Reoliad 882/2004” rhodder “Reoliad 2017/625”;
- (b) ym mharagraff (3), yn lle “Reoliad 882/2004” rhodder “Reoliad 2017/625”.

14. Yn rheoliad 12 (yr hawl i apelio), ym mharagraff (1)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “Erthygl 31(2)(c) o Reoliad 882/2004 (cymeradwyaeth)” rhodder “Erthygl 148(3) o Reoliad 2017/625 (cymeradwyaeth)”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004 (cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn)” rhodder “Erthygl 148(4) o Reoliad 2017/625 (cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn)”;
- (c) yn is-baragraff (c), yn lle “Erthygl 31(2)(e) o Reoliad 882/2004 (tynnu cymeradwyaeth yn ôl ac atal cymeradwyaeth)” rhodder “Erthygl 138(2)(j) o Reoliad 2017/625 (atal cymeradwyaeth neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl)”.

15. Yn rheoliad 14 (staff awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth arall), yn lle “Erthygl 36 o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 104(3) o Reoliad 2017/625”.

16. Yn rheoliad 15 (arbenigwyr y Comisiwn), ym mharagraff (1)—

- (a) yn lle “er mwyn galluogi’r arbenigydd hwnnw” rhodder “ac arbenigydd cenedlaethol, a benodwyd at ddibenion Erthygl 116(4) o Reoliad 2017/625, i ddod gydag arbenigydd y Comisiwn, ac er mwyn galluogi’r arbenigydd hwnnw o’r Comisiwn”;
- (b) yn lle “Erthygl 45 o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 116 o Reoliad 2017/625”.

17. Yn rheoliad 17 (gweithredu a gorfodi)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “corff rheoli” rhodder “corff dirprwyedig”;
- (b) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “un o arbenigwyr y Comisiwn” mewnosoder “, a phan fo hynny’n berthnasol, arbenigydd cenedlaethol,”.

18. Yn rheoliad 22 (dehongli’r Rhan hon o’r Rheoliadau hyn)—

- (a) yn lle’r diffiniad o “cynnyrch” rhodder—
“ystyr “cynnyrch” (“*product*”) yw bwyd anifeiliaid a bwyd y mae eu mewnfornio wedi’u rheoleiddio gan Erthygl 44 o

Reoliad 2017/625 ac mae'n cynnwys y cynhyrchion a'r bwydydd cyfansawdd hynny nad yw'n ofynnol iddynt fod yn ddarostyngedig i wiriadau milfeddygol fel y darperir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn arolygfeydd ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC;";

- (b) yn y diffiniad o "y tiriogaethau perthnasol" yn lle "Reoliad 882/2004" rhodder "Reoliad 2017/625";
- (c) yn lle'r diffiniad o "darpariaeth fewnforio benodedig" rhodder—

"ystyr "darpariaeth fewnforio benodedig" (*"specified import provision"*) yw unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad 2017/625 neu ym mhecyn Rheoliad 2017/625 a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 6 ac y disgrifir ei chynnwys yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;".

19. Yn rheoliad 23 (cyfrifoldebau gorfodi bwyd anifeiliaid a statws awdurdod cymwys)—

- (a) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad 669/2009 heblaw Erthygl 19" rhodder "Rheoliad 2019/1793";
- (b) hepgorer paragraff (4).

20. Yn rheoliad 24 (cyfrifoldebau gorfodi bwyd a statws awdurdod cymwys)—

- (a) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad 669/2009 heblaw Erthygl 19" rhodder "Rheoliad 2019/1793";
- (b) hepgorer paragraff (4).

21. Yn rheoliad 25 (swyddogaethau'r Comisiynwyr), yn lle "i wasanaethau tollau o dan Erthygl 24 o Reoliad 882/2004 ac Erthygl 10 o Reoliad 669/2009" rhodder "i awdurdodau tollau o dan Erthyglau 46, 57, 75 ac 76 o Reoliad 2017/625 ac Erthygl 4 o Reoliad 2019/1793".

22. Yn rheoliad 27 (gohirio gweithredu a gorfodi), ym mharagraff (6), yn lle "Erthygl 15(5) o Reoliad 882/2004" rhodder "Erthygl 47(1)(d) a (2)(b) ac Erthygl 54(4) o Reoliad 2017/625".

23. Yn rheoliad 29 (gwirio cynhyrchion), yn lle "Erthygl 16 o Reoliad 882/2004", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Erthyglau 34(5) a (6), 44(2) a 45(1), (2) a (4) o Reoliad 2017/625".

24. Yn lle rheoliad 30 (atal dynodiad pwyntiau mynediad) rhodder—

“Tynnu safleoedd rheoli ar y ffin yn ôl a’u hatal

30.—(1) Pan fo’r Asiantaeth wedi’i bodloni bod safle rheoli ar y ffin wedi peidio â chydymffurfio â’r gofynion y cyfeirir atynt yn Erthygl 64 o Reoliad 2017/625 a Rheoliad 2019/1014 caiff dynnu dynodiad y safle rheoli ar y ffin yn ôl ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin.

(2) Pan fo’r Asiantaeth wedi’i bodloni bod yr amodau y cyfeirir atynt yn Erthygl 63(1) o Reoliad 2017/625 yn gymwys caiff atal dynodiad y safle rheoli ar y ffin ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin ac os oes risg ddifrifol i iechyd pobl neu i iechyd anifeiliaid bydd atal y dynodiad yn cael effaith ar unwaith.

(3) Pan gyflwynir hysbysiad o dan baragraff (2), mae’r safle rheoli ar y ffin yn peidio â bod yn safle rheoli ar y ffin dynodedig i’r graddau a bennir yn yr hysbysiad hwnnw hyd nes y caiff yr ataliad ei ddiddymu drwy hysbysiad ysgrifenedig i’r perwyl hwnnw a gyflwynir gan yr Asiantaeth i weithredydd y safle rheoli ar y ffin.

(4) Pan fo’r Asiantaeth wedi’i bodloni ei bod yn rhesymol tynnu’r dynodiad yn ôl neu ei atal am resymau heblaw’r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) caiff wneud hynny ar gyfer pob categori o anifeiliaid a nwyddau y gwnaed y dynodiad ar eu cyfer, neu ar gyfer categorïau penodol ohonynt, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r perwyl hwnnw i weithredydd y safle rheoli ar y ffin.”

25. Yn rheoliad 31 (cadw, distrywio, trin yn arbennig, ailanfon a mesurau a chostau priodol eraill)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “Erthyglau 18 i 21 a 24(3) o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthyglau 46, 65 i 69, 71, a 72 o Reoliad 2017/625”;

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Mae’r mesurau a gymerir gan yr awdurdod gorfodi o dan Erthyglau 66, 67 a 69 o Reoliad 2017/625 yn unol â pharagraff (1) i’w cymryd ar draul y gweithredydd sy’n gyfrifol am y llwyth.”

26. Yn lle rheoliad 32 (hysbysiadau yn unol ag Erthyglau 18 a 19 o Reoliad 882/2004 (mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd o drydydd gwledydd)) rhodder—

“Hysbysiadau mewn perthynas â mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd o drydydd gwledydd

32.—(1) Os bydd swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi yn bwriadu gosod llwyth o fwyd anifeiliaid neu fwyd yng nghadw yn swyddogol o dan Erthygl 65, 66 neu 67 o Reoliad 2017/625 rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r gweithredydd sy'n gyfrifol am y llwyth.

(2) Cyn rhoi gorchymyn i'r gweithredydd i weithredu yn unol ag Erthygl 66(3)(a), (b) neu (c), rhaid i'r swyddog gorfodi wrando ar y gweithredydd hwnnw fel y darperir ym mhedwerydd is-baragraff Erthygl 66(3) o Reoliad 2017/625 oni bai bod angen gweithredu ar unwaith.

(3) Os bydd swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi yn bwriadu cymryd unrhyw rai o'r mesurau y cyfeirir atynt yn Erthygl 66 neu 67 o Reoliad 2017/625 mewn cysylltiad â llwyth o fwyd anifeiliaid neu fwyd, rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r gweithredydd sy'n gyfrifol am y llwyth.”

27. Yn lle rheoliad 36 (costau a ffioedd) rhodder—

“Costau a ffioedd

36.—(1) Mae'r costau a dynnir gan yr awdurdod gorfodi wrth gymryd y mesurau y mae'r gweithredydd yn atebol amdanynt o dan Erthyglau 66, 67 a 69 o Reoliad 2017/625 yn daladwy gan y gweithredydd ar archiad ysgrifenedig yr awdurdod gorfodi.

(2) Mae'r costau rheolaethau swyddogol a gweithgareddau eraill y cyfeirir atynt yn Erthygl 80 o Reoliad 2017/625 yn daladwy gan y gweithredydd ar archiad ysgrifenedig yr awdurdod gorfodi.”

28. Hepgorer rheoliad 43 (treuliau sy'n deillio o reolaethau swyddogol ychwanegol).

29. Hepgorer rheoliad 44 (treuliau sy'n deillio o gymorth wedi ei gyd-drefnu a gwaith dilynol gan y Comisiwn).

30. Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

31. Yn lle Atodlen 4 (awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau penodol yn Rheoliad 882/2004 i'r graddau y maent yn gymwys o ran cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol), rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

32. Yn lle Atodlen 5 (awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau penodol yn Rheoliad 882/2004 i'r graddau y maent yn gymwys o ran cyfraith bwyd berthnasol), rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

33. Yn lle Atodlen 6 (darpariaethau mewforio penodedig), rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011

34. Mae Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

35. Yn rheoliad 7 (treuliau sy'n tarddu o reolaethau swyddogol)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “Erthygl 27(1) o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 80 o Reoliad 2017/625”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “Erthygl 54(5) o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 138(4) o Reoliad 2017/625”;
- (c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Ym mharagraffau (1) a (2) ac yn rheoliad 8(3), ystyr “Rheoliad 2017/625” yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.”

36. Yn rheoliad 8 (hysbysiadau a gweithredoedd mewn achos o anghydymffurfiaeth), ym mharagraff (3)(b), yn lle “Erthygl 54(2) a (5) o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 138(2) a (4) o Reoliad 2017/625”.

37. Hepgorer rheoliad 10 (atal dros dro ddynodiad man cyflwyno cyntaf).

(1) O.S. 2011/1605 (Cy. 186), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

38. Yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013(1), yn Atodlen 2, yn Rhan 2, ym mharagraff 3, yn lle “labordy rheoli swyddogol o dan Reoliad 882/2004” rhodder “labordy swyddogol o dan Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion”.

Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016

39. Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

40. Yn rheoliad 15 (gweithdrefn mewn perthynas â samplau ar gyfer eu dadansoddi)—

(a) yn lle paragraff (1)(c) rhodder—

“(c) anfon rhan arall—

(i) at y person y samplwyd y deunydd yn ei fangre, neu at asiant y person hwnnw; neu

(ii) at y person a gynigiodd y deunydd i’w werthu drwy gyfrwng cyfathrebu o bell os archebwyd y deunydd oddi wrth berson o’r fath, neu at asiant y person hwnnw; a”;

(b) yn lle paragraff (4)(a) a (b) rhodder—

“(a) y person y samplwyd y deunydd yn ei fangre, neu at asiant y person hwnnw;

(b) y person a gynigiodd y deunydd i’w werthu drwy gyfrwng cyfathrebu o bell os archebwyd y deunydd oddi wrth berson o’r fath, neu at asiant y person hwnnw; ac

(c) os anfonwyd rhan o’r sampl o dan baragraff (2), at y person yr anfonwyd y rhan honno ato.”

41. Yn rheoliad 33 (atebolrwydd am wariant)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “Erthygl 54(5) (camau gweithredu mewn achos o beidio â chydymffurfio) o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 138(4) (camau gweithredu mewn

(1) O.S. 2013/479 (Cy. 55), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2016/387 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/40 (Cy. 12) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162).

achos o beidio â chydymffurfio) o Reoliad
2017/625”;

(b) hepgorer paragraff (2).

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2019

ATODLEN 1

Rheoliad 6

Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 1 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

“ATODLEN 1

Regulation 2(1)

DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH YR UE

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/41” (“*Directive 2004/41*”) yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(1);

ystyr “Rheoliad 178/2002” (“*Regulation 178/2002*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2), fel y'i darllenir gyda Rheoliad 931/2011 a Rheoliad 208/2013;

ystyr “Rheoliad 852/2004” (“*Regulation 852/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd(3) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005 a Rheoliad 210/2013;

ystyr “Rheoliad 853/2004” (“*Regulation 853/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o

(1) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 195, 2.6.2004, t. 12).

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.

(3) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t. 3) y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).

anifeiliaid(1) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2017/185;

ystyr “Rheoliad 1688/2005” (“*Regulation 1688/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gig ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(2);

ystyr “Rheoliad 2073/2005” (“*Regulation 2073/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(3);

ystyr “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(4);

ystyr “Rheoliad 931/2011” (“*Regulation 931/2011*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 931/2011 ar y gofynion olrheiniadwyedd a osodir gan Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(5);

ystyr “Rheoliad 1169/2011” (“*Regulation 1169/2011*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn

-
- (1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 22), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26)).
- (2) OJ Rhif L 271, 15.10.2005, t. 17.
- (3) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1, fel y'i darllenir gyda'r Corigenda yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32 ac OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62.
- (4) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 27.
- (5) OJ Rhif L 242, 20.9.2011, t. 2.

2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004(1);

ystyr “Rheoliad 28/2012” (“*Regulation 28/2012*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 28/2012 sy’n gosod gofynion ardystio ar gyfer mewnfario cynhyrchion cyfansawdd penodol i’r Undeb, a chludo’r cynhyrchion hynny drwyddo, ac sy’n diwygio Penderfyniad 2007/275/EC a Rheoliad (EC) Rhif 1162/2009(2) fel y’i darllenir gyda Rheoliad 853/2004;

ystyr “Rheoliad 208/2013” (“*Regulation 208/2013*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 208/2013 ar ofynion olrheiniadwyedd ar gyfer egin a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu egin(3);

ystyr “Rheoliad 210/2013” (“*Regulation 210/2013*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy’n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor(4);

ystyr “Rheoliad 579/2014” (“*Regulation 579/2014*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014 sy’n caniatáu rhanddirymu darpariaethau penodol yn Atodiad II i Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran cludo olewau hylifol a brasterau hylifol dros y môr(5);

ystyr “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(6);

ystyr “Rheoliad 2017/185” (“*Regulation 2017/185*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/185 sy’n gosod mesurau trosiannol ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodol yn Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor(7);

ystyr “Rheoliad 2017/625” (“*Regulation 2017/625*”) yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion

(1) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18.

(2) OJ Rhif L 12, 14.1.2012, t. 1.

(3) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 16.

(4) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 24.

(5) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14.

(6) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.

(7) OJ Rhif L 29, 3.2.2017, t. 21.

diogelu planhigion, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (EU) Rhif 1151/2012, (EU) Rhif 652/2014, (EU) 2016/429 ac (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ac (EC) Rhif 1099/2009 a Chyfarwydebau'r Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, ac sy'n diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwydebau'r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC(1) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2017/185 a phhecyn Rheoliad 2017/625;

Pecyn Rheoliad 2017/625

ystyr “Rheoliad 2018/329” (“*Regulation 2018/329*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/329 sy'n dynodi Canolfan Gyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Lles Anifeiliaid(2);

ystyr “Rheoliad 2018/631” (“*Regulation 2018/631*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/631 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy sefydlu labordai cyfeirio'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer plâu planhigion(3);

ystyr “Rheoliad 2019/66” (“*Regulation 2019/66*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/66 ar reolau ynghylch trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill er mwyn gwirio cydymffurfedd â rheolau'r Undeb ar fesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion sy'n gymwys i'r nwyddau hynny(4);

ystyr “Rheoliad 2019/478” (“*Regulation 2019/478*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/478 sy'n diwygio Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y categorïau o lwythi sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(5);

(1) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1.

(2) OJ Rhif L 63, 6.3.2018, t. 13.

(3) OJ Rhif L 105, 25.4.2018, t. 1.

(4) OJ Rhif L 15, 17.1.2019, t. 1.

(5) OJ Rhif L 82, 25.3.2019, t. 4.

ystyr “Rheoliad 2019/530” (“*Regulation 2019/530*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/530 sy’n dynodi labordai cyfeirio’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer plâu planhigion ar bryfed a gwiddon, nematodau, bacteria, ffyngau ac oomysetau, firysau, firoidau, a ffytoplasmâu(1);

ystyr “Rheoliad 2019/624” (“*Regulation 2019/624*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragenog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor(2);

ystyr “Rheoliad 2019/625” (“*Regulation 2019/625*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/625 sy’n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran gofynion ar gyfer mynediad i’r Undeb i lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i’w bwyta gan bobl(3);

ystyr “Rheoliad 2019/626” (“*Regulation 2019/626*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/626 ynghylch rhestrau o drydydd gwledydd neu ranbarthau o’r trydydd gwledydd hynny sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer mynediad i anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i’w bwyta gan bobl i’r Undeb Ewropeaidd, sy’n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y rhestrau hyn(4);

ystyr “Rheoliad 2019/627” (“*Regulation 2019/627*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/627 sy’n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid a fwriedir i’w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac sy’n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol(5);

ystyr “Rheoliad 2019/628” (“*Regulation 2019/628*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/628 ynghylch tystysgrifau swyddogol enghreifftiol ar gyfer anifeiliaid a nwyddau penodol ac sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 a Rheoliad Gweithredu

(1) OJ Rhif L 88, 29.3.2019, t. 19.

(2) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 1.

(3) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 18.

(4) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 31.

(5) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 51.

(EU) 2016/759 o ran y tystysgrifau enghreifftiol hyn(1);

ystyr “Rheoliad 2019/723” (“*Regulation 2019/723*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/723 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y ffurflen enghreifftiol safonol i'w defnyddio yn yr adroddiadau blynyddol a gyflwynir gan Aelod-wladwriaethau(2);

ystyr “Rheoliad 2019/1012” (“*Regulation 2019/1012*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1012 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy rannu'r rheolau ar gyfer dynodi pwyntiau rheoli a'r isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin(3);

ystyr “Rheoliad 2019/1013” (“*Regulation 2019/1013*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 ar hysbysu ymlaen llaw am lwythi o gategoriâu penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r Undeb(4);

ystyr “Rheoliad 2019/1014” (“*Regulation 2019/1014*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1014 i osod rheolau manwl ar gyfer yr isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin, gan gynnwys canolfannau arolygu, ac ar gyfer y fformat, y categorïau a'r byrfoddau i'w defnyddio wrth restru safleoedd rheoli ar y ffin a phwyntiau rheoli(5);

ystyr “Rheoliad 2019/1081” (“*Regulation 2019/1081*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1081 sy'n sefydlu rheolau ar ofynion hyfforddi penodol ar gyfer staff er mwyn cyflawni gwiriadau ffisegol penodol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(6);

ystyr “Rheoliad 2019/1602” (“*Regulation 2019/1602*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y Ddogfen Fynediad Iechyd Gyffredin sy'n mynd gyda llwythi o anifeiliaid a nwyddau i'w cyrchfan(7);

(1) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 101.

(2) OJ Rhif L 124, 13.5.2019, t. 1.

(3) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 4.

(4) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 8.

(5) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 10.

(6) OJ Rhif L 171, 26.6.2019, t. 1.

(7) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 6.

ystyr “Rheoliad 2019/1666” (“*Regulation 2019/1666*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1666 sy’n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran yr amodau ar gyfer monitro cludiant a chyrhaeddiad llwythi o nwyddau penodol o’r safle rheoli ar y ffin lle y cyraeddasant i’r sefydliad yn y gyrchfan yn yr Undeb(1);

ystyr “Rheoliad 2019/1715” (“*Regulation 2019/1715*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1715 sy’n gosod rheolau ar gyfer gweithrediad y system rheoli gwybodaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol a chydannau ei system (y Rheoliad SRhGRhS)(2);

ystyr “Rheoliad 2019/1793” (“*Regulation 2019/1793*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy’n rheoli mynediad i’r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol sy’n gweithredu Rheoliadau (EU) 2017/625 ac (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac yn diddymu Rheoliadau’r Comisiwn (EC) Rhif 669/2009, (EU) Rhif 884/2014, (EU) 2015/175, (EU) 2017/186 ac (EU) 2018/1660(3);

ystyr “Rheoliad 2019/1873” (“*Regulation 2019/1873*”) y Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1873 ar y gweithdrefnau mewn safleoedd rheoli ar y ffin ar gyfer cyflawni gan awdurdodau cymwys mewn modd cyd-gysylltiedig reolaethau swyddogol dwysach ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion cyfansawdd(4).”

(1) OJ Rhif L 255, 4.10.2019, t. 1.

(2) OJ Rhif L 261, 14.10.2019, t. 37.

(3) OJ Rhif L 277, 29.10.2019, t. 89.

(4) OJ Rhif L 289, 8.11.2019, t. 50.

ATODLEN 2

Rheoliad 30

Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 1 i
Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar
Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

“ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)

DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH YR UE

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/41” (“*Directive 2004/41*”) yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(1);

ystyr “Penderfyniad 2007/275” (“*Decision 2007/275*”) yw Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestri o anifeiliaid a chynhyrchion sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn arolygfeydd ffin o dan Gyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC a 97/78/EC(2);

ystyr “Rheoliad 999/2001” (“*Regulation 999/2001*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol(3);

ystyr “Rheoliad 178/2002” (“*Regulation 178/2002*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4);

Nodwn fod y broses o ddrafftio'r Rheoliadau hyn wedi'i gohirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch statws y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth mewn perthynas â phwynt adrodd 3.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

4 Rhagfyr 2019



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1480 (Cy. 264)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Cig (Ffioedd
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
(Diwygio) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1557 (Cy. 152)). Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1), a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan y Rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1480 (Cy. 264)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Cig (Ffioedd
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
(Diwygio) 2019**

Gwnaed 27 Tachwedd 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 28 Tachwedd 2019

Yn dod i rym 14 Rhagfyr 2019

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau mewn cysylltiad â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad yn Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(3) at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, fel y diwygir y Rheoliadau hynny gan y Rheoliadau hyn, gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

-
- (1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).
- (2) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
- (3) O.S. 2009/1557 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, O.S. 2014/951 (Cy. 92) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd⁽¹⁾, ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2019.

Diwygio Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009

2. Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1)—

- (a) yn y diffiniad o “archwilio”, yn lle “Erthygl 2.6 o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 3(30) o Reoliad 2017/625”;
- (b) yn y diffiniad o “rheolaethau”, yn lle “yn unol â Rheoliad 854/2004,”, yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder “yn unol â Rheoliad 2017/625, Rheoliad 2019/624 a Rheoliad 2019/627,”;
- (c) yn y diffiniad o “safle torri”—
 - (i) ym mharagraff (a), yn lle “Erthygl 31.2 o Reoliad 882/2004” rhodder “Erthygl 148 o Reoliad 2017/625”;
 - (ii) hepgorer paragraff (b);
- (d) yn lle'r diffiniad sy'n dechrau “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”” rhodder—

“mae i “Cyfarwyddeb 2004/41” (“*Directive 2004/41*”), “Rheoliad 178/2002” (“*Regulation 178/2002*”), “Rheoliad 852/2004” (“*Regulation 852/2004*”), “Rheoliad 853/2004” (“*Regulation 853/2004*”), “Rheoliad 1688/2005” (“*Regulation 1688/2005*”), “Rheoliad 2073/2005” (“*Regulation 2073/2005*”), “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”), “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”), “Rheoliad 2017/185” (“*Regulation 2017/185*”), “Rheoliad 2017/625” (“*Regulation 2017/625*”), “Rheoliad 2019/624”

(1) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

(“*Regulation 2019/624*”) a “*Rheoliad 2019/627*” (“*Regulation 2019/627*”) yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;”;

- (e) yn y diffiniad o “sefydliad trin anifeiliaid hela”—
 - (i) ym mharagraff (a), yn lle “*Erthygl 31.2 o Reoliad 882/2004*” rhodder “*Erthygl 148 o Reoliad 2017/625*”;
 - (ii) hepgorer paragraff (b);
- (f) yn y lle priodol, mewnosoder—

“mae i “*cynorthwydd swyddogol*” yr ystyr a roddir i “*official auxiliary*” yn *Erthygl 3(49) o Reoliad 2017/625*”;
- (g) yn y diffiniad o “*rheolaethau swyddogol*”, yn lle “*Erthygl 2.1 o Reoliad 882/2004*” rhodder “*Erthygl 2(1) o Reoliad 2017/625*”;
- (h) yn y diffiniad o “*milfeddyg swyddogol*”, yn lle “*Erthygl 2.1(f) o Reoliad 854/2004*” rhodder “*Erthygl 3(32) o Reoliad 2017/625*”;
- (i) yn y diffiniad o “*lladd-dy*”—
 - (i) ym mharagraff (a), yn lle “*Erthygl 31.2 o Reoliad 882/2004*” rhodder “*Erthygl 148 o Reoliad 2017/625*”;
 - (ii) hepgorer paragraff (b).

4. Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE), rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

5. Yn Atodlen 2 (cyfrifo'r ffi rheolaethau swyddogol)—

- (a) ym mharagraff 6—
 - (i) yn lle “*yr amcanion a bennir yn Erthygl 1.1 o Reoliad 882/2004*” rhodder “*bod amcanion Rheoliad 2017/625*”;
 - (ii) yn lle “*Erthygl 3.1*” rhodder “*Erthygl 9(1)*”;
- (b) ym mharagraff 11, yn lle “*Atodiad VI i Reoliad 882/2004*” rhodder “*Erthyglau 81 a 82 o Reoliad 2017/625*”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2019

YR ATODLEN

Rheoliad 4

“ATODLEN 1

DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH YR UE

Rheoliad 2(1)

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/41” (“*Directive 2004/41*”) yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynghylch hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy’n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i’w bwyta gan bobl ac sy’n diwygio Cyfarwyddebau’r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(1);

ystyr “Rheoliad 178/2002” (“*Regulation 178/2002*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2);

ystyr “Rheoliad 852/2004” (“*Regulation 852/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar hylendid bwydydd(3) fel y’i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005;

ystyr “Rheoliad 853/2004” (“*Regulation 853/2004*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy’n dod o anifeiliaid(4) fel y’i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2017/185;

-
- (1) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 195, 2.6.2004, t. 12).
- (2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.
- (3) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226 25.6.2004, t. 3) y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).
- (4) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226 25.6.2004, t. 22) y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).

ystyr “Rheoliad 1688/2005” (“*Regulation 1688/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy’n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gigoedd ac wyau penodol i’r Ffindir a Sweden(1);

ystyr “Rheoliad 2073/2005” (“*Regulation 2073/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(2);

ystyr “Rheoliad 2074/2005” (“*Regulation 2074/2005*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy’n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor, sy’n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(3);

ystyr “Rheoliad 2015/1375” (“*Regulation 2015/1375*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(4);

ystyr “Rheoliad 2017/185” (“*Regulation 2017/185*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/185 sy’n gosod mesurau trosiannol ar gyfer cymhwysio darpariaethau penodol yn Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor(5);

ystyr “Rheoliad 2017/625” (“*Regulation 2017/625*”) yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, ac sy’n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (EU) Rhif 1151/2012, (EU) Rhif 652/2014, (EU) 2016/429 ac (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r Cyngor, Rheoliadau’r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ac (EC) Rhif 1099/2009 a Chyfarwyddebau’r

(1) OJ Rhif L 271, 15.10.2005, t. 17.

(2) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1, fel y’i darllenir gyda’r Corigenda yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32 ac OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62.

(3) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 27.

(4) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.

(5) OJ Rhif L 29, 3.2.2017, t. 21.

Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, ac sy'n diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddbau'r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC(1) fel y'i darllenir gyda Chyfarwydddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 2019/624" ("*Regulation 2019/624*") yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragenog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor(2) fel y'i darllenir gyda Chyfarwydddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 2019/627" ("*Regulation 2019/627*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/627 sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol(3) fel y'i darllenir gyda Chyfarwydddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2015/1375 a Rheoliad 2017/185."

(1) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1.

(2) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 1.

(3) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 51.

Explanatory Memorandum to The Meat (Official Control Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by Food Standards Agency and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Meat (Official Control Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2019

Vaughan Gething

Minister for Health and Social Services

28 November 2019

PART 1

1. Description

1. The Meat (Official Controls Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2019 amends the Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2009 [SI 2009/1557 (W. 152)] to provide for the execution of powers and enforcement, in Wales of Regulation (EC) No.2017/625 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products.
2. It continues to require the Food Standards Agency (“FSA”) to charge the operators of approved meat premises in England, in order to recover a percentage of the costs incurred by the FSA in carrying out official controls at such premises to check for compliance with applicable meat hygiene and animal welfare at slaughter requirements.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

3. Section (2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of the SI because it is giving effect to EU provisions
4. The current official controls regulation (Regulation (EC) No. 882/2004) will be revoked when the OCR comes into force on 14 December. The SIs are critical to maintaining official controls and enforcement. If these SIs are not laid, this leaves Wales without a legal framework to enforce official controls and therefore puts public health at risk (as well as animal health and welfare), undermines business and consumer confidence and risks market access to the EU. Without the SIs coming into force on 14 December, the FSA and other enforcement authorities in Wales will not have the legislative powers to enforce food and feed safety laws. For example, food inspectors will be unable to enter and inspect food businesses. Additionally, there will be no official presence at meat processing plants meaning they will need to cease operation, these has implications for food supplies as well as loss of employment as food business operators will not employ inspectors while they are unable to perform their duties.
5. Official controls are integral to protecting consumers’ health and other interests and maintaining the integrity of the agri-food chain that provides consumer and business confidence as well as assurance to other Member States and 3rd countries, which is vital to trade. UK enforcement authorities (such as the FSA and local authorities) carry out official controls at all stages of production, distribution, storage,

transport, import and export of food and feed. The controls ensure that food and feed businesses are meeting their obligations to produce safe and wholesome food and feed and that unsafe products are removed from the market.

6. Without the SIs coming into force on 14 December we would fail to meet our legal obligations and the FSA and other enforcement authorities would lose the legal powers to effectively enforce food and feed safety laws.
7. Similar legislation is being made in England, Scotland and Northern Ireland to come into force on 14 December.
8. The drafting of the SIs has been delayed because important parts of them depended on the status of the United Kingdom, insofar as whether it was a Member State of the European Union on the coming into force date (14 December 2019) of the OCR. Certainty over this position was not forthcoming from UK Government and the European Union until very shortly before the 31 October.
9. The impact of this on the drafting process in all of the devolved administrations has been significant, and this is the reason why the final SIs were not able to be submitted for scrutiny in time to avoid the recommendation not to adhere to the 21-day convention.

3. Legislative background

10. Regulation (EU) 2017/625 entered into force on the 27 April 2017, the applicability of the new rules was set to apply gradually over several years; with the main application taking effect 14 December 2019.
11. Regulation (EU) 2017/625 sets out a framework of requirements for the competent authorities in Member States which have responsibilities for organising and performing official controls and other official activities to verify compliance with agri-food chain legislation. The Regulation broadens the scope of the original official food and feed controls Regulation (EC) 882/2004 to cover plant health and animal by-products legislation (and other agricultural areas such as plant protection products and organic production) in order to introduce a more consistent approach to official controls along the entire agri-food chain.
12. Regulation (EU) 2017/625 amends Regulations (EC) No 999/2001, (EC) No 396/2005, (EC) No 1069/2009, (EC) No 1107/2009, (EU) No 1151/2012, (EU) No 652/2014, (EU) 2016/429 and (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council, Council Regulations (EC) No 1/2005 and (EC) No 1099/2009 and Council Directives 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC and 2008/120/EC.
13. Regulation (EU) 2017/625 repeals Regulations (EC) No 854/2004 and (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council,

Council Directives 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC and 97/78/ EC and Council Decision 92/438/EEC (“Official Controls Regulation”).

14. In addition, the Regulations provides for a number of empowerments to set out in Commission tertiary legislation more detailed rules for the performance of official controls and other official activities.
15. Most of the provisions of Regulation (EU) 2017/625 clarify and simplify existing requirements and aim to introduce a more risk-based approach to controls. Therefore, existing enforcement arrangements in the UK are generally already aligned to the new Regulation.
16. The FSA is the Central Competent Authority (CCA) responsible for checks carried out on compliance with feed and food law, including imported feed and food in Wales. The main provisions of the new EU Regulation will take effect across the European Union from 14 December 2019. This is part of a wider initiative to harmonise and simplify existing EU legislation and to establish a more integrated approach to official controls in all areas across the agri-food chain.

Legal issues, powers & statutory duties

17. The Regulations will be made pursuant to powers in section 2(2) of the European Communities Act 1972. Section 2(2) of the European Communities Act 1972 provides that any designated Minister may by order, rules, regulations or scheme make provision for the purpose of implementing any EU obligation of the UK. “Designated Minister” means such Minister of the Crown or government department as may from time to time to be designated by Order in Council in relation to any matter or for any purpose. 2(2) of the European Communities Act 1972 enables
18. Section 59 of the Government of Wales Act 2006 provides that the power to designate a Minister of the Crown or government department under section 2(2) of the European Communities Act 1972 may be exercised to designate the Welsh Ministers, and that accordingly the Welsh Ministers may exercise the power conferred by section 2(2) in relation to any matter or purpose in relation to which they have been designated.
19. The Welsh Ministers are designated in relation to measures in respect of food (including drink) including the primary production of food (see European Communities (Designation) (No. 2) Order 2005/1971).
20. The Regulations follow the negative procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

21. This Statutory Instrument amends The Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2009.
22. The amendment to the domestic legislation is mechanical in nature to update existing references to reflect the new EU Regulation.
23. This instrument does not relate to withdrawal from the European Union / trigger the statement requirements under the European Union (Withdrawal) Act.
24. The Statutory Instrument makes no significant changes to current official control practices and consolidates and amends legislative references to take account of the new EU legislation.

5. Consultation

25. The FSA in Wales carried out a public consultation on the overarching Regulations and draft Impact Assessment between 28 August and 9 October 2019.
26. Four substantive comments were received. None of those made any comment relating to the amendment to the Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2009.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

27. The amendments made in The Meat (Official Controls Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2019 are mechanical in nature, intended only to update existing references to reflect the new EU Regulation. These changes are not expected to have a major policy impact and, as such, a Regulatory Impact Assessment is not considered necessary. This is in line with the Welsh Ministers' RIA Code

9. Competition Assessment

28. As these regulations apply to all businesses affected, regardless of size or market share, it is not considered that there is any impact on competition.

10. Post implementation review

29. As these Regulations are technical in nature, and in practice make no appreciable change to the current application of Official Controls no post-implementation review is currently planned. Should any unforeseen consequences arise, the FSA will review this.



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/VG/5533/19

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Tachwedd 2019

Annwyl Elin,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019
Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019
Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dyma roi gwybod bod yr offerynnau statudol hyn yn dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad gosod. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn ynghlwm er gwybodaeth.

Bydd y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (UE) 2017/625) yn dod i rym yn llawn ar draws yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 14 Rhagfyr 2019 ac yn dirymu'r ddeddfwriaeth fframwaith bresennol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar hyd y gadwyn bwyd-amaeth. Mae'r Rheoliad yn rhan o becyn Rheolau Doethach yr UE ar gyfer Bwyd Mwy Diogel (SRSF) ac mae'n uniongyrchol berthnasol i gyfraith yr UE. Yn ôl cyfraith yr UE, mae'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig (DU) greu darpariaeth i orfodi'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Gohiriwyd drafftio'r offerynnau statudol oherwydd bod rhannau pwysig ohonynt yn dibynnu ar statws y DU, sef a oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE ar ddyddiad dod i rym y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (14 Rhagfyr 2019). Ni chafwyd sicrwydd ynghylch y sefyllfa hon gan Lywodraeth y DU na'r UE tan ychydig cyn 31 Hydref.

Mae effaith hyn ar y broses ddrafftio ar draws holl weinyddiaethau'r DU wedi bod yn sylweddol, a dyma'r rheswm pam na ellir cyflwyno'r offerynnau statudol terfynol i graffu arnynt mewn pryd i ganiatáu'r cyfnod o 21 diwrnod rhwng gosod a dod i rym ar 14 Rhagfyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn cael ymateb.


Bydd y rheoliad rheolaethau swyddogol cyfredol (Rheoliad (CE) Rhif 882/2004) yn cael ei ddirymu pan ddaw'r rheoliad rheolaethau swyddogol i rym ar 14 Rhagfyr. Mae'r Offerynnau Statudol yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol. Os na wneir yr Offerynnau Statudol hyn, ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru'r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Offerynnau Statudol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac fel sy'n ofynnol gan gyfraith Ewrop. Dadansoddir ymatebion yn y Memoranda Esboniadol ond nid oedd angen newid yn Offerynnau Statudol yn benodol.

Mae Rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud yn holl weinyddiaethau eraill y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Phwyllgor.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

SL(5)477– Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Eitem 3.4 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 sy'n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru er mwyn cynnwys, o fewn cynnig cyllidebol, yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio.

Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod tri chorff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i Orchymyn 2018.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Gallai Gweinidogion Cymru ddewis pa weithdrefn yw defnyddio ar gyfer yr offeryn hwn yn unol ag adrannau 126A(9) ac 126A(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a dewiswyd y weithdrefn negyddol sydd, fe ymddengys, yn briodol.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2 Rhagfyr 2019



2019 Rhif (Cy.)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth
Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a
Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (O.S. 2018/1173 (Cy. 237)) ("Gorchymyn 2018"). Mae'n mewnosod tri chorff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018. Y cyrff hyn yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac International Business Wales Limited.

Effaith y diwygiad hwn yw y bydd yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff a restrir uchod eu defnyddio yn cael eu cynnwys o fewn Cynnig Cyllidebol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

2019 Rhif (Cy.)

**Y GYFRAITH
GYFANSODDIADOL**

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth
Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a
Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019**

Gwnaed 27 Tachwedd 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 29 Tachwedd 2019

Yn dod i rym 1 Ionawr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1).

Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys, pan feddylant fod hynny'n briodol, ac mae'r Trysorlys wedi cydsynio i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2020.

**Diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth
Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff
Dynodedig) 2018**

2.—(1) Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (Cyrrff Dynodedig), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

(1) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25).

(2) O.S. 2018/1173 (Cy. 237).

“Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)”

“Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru”

“International Business Wales Limited”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion

Cymru

27 Tachwedd 2019

Explanatory Memorandum to the Government of Wales Act 2006 (Budget Motions and Designated Bodies) (Amendment) Order 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by Permanent Secretary's Group and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Government of Wales Act 2006 (Budget Motions and Designated Bodies) (Amendment) Order 2019.

Rebecca Evans
Minister for Finance and Trefnydd
27 November 2019

PART 1

1. Description

1.1 The Government of Wales Act 2006 (Budget Motions and Designated Bodies) (Amendment) Order 2019 (“the 2019 Order”) amends the Government of Wales Act 2006 (Budget Motions and Designated Bodies) Order 2018 that designates bodies in relation to the Welsh Ministers. The purpose of such designation is so that information relating to the resources expected to be used by such bodies can be included within a Budget Motion.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1 Section 126A(9) and (10) of the Government of Wales Act 2006 (“GOWA 2006”) provide for the Order to be subject to either the affirmative or the negative resolution procedure.

2.2 The Minister for Finance and Trefnydd is of the view that the Order be subject to the negative resolution procedure as there are no factors indicating the use of the affirmative procedure. The Order designates bodies for the purposes of including within a Budget motion, information relating to the resources expected to be used by those bodies. Inclusion of the resources of the designated bodies within the Budget Motion will minimise alignment discrepancies between the Budget, Budget Motion and consolidated accounts, but will have no effect on the resource limits of those bodies. The subject matter of the Order can therefore be regarded as administrative as the effect on the Budget will be presentational.

3. Legislative background

3.1 This Order is made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by section 126A(2) and (3) GOWA 2006. This is the fourth Order made by the Welsh Ministers under these powers.

3.2 In accordance with section 126A(4) and (6) GOWA 2006, the Welsh Ministers have consulted, where they think it appropriate, with HM Treasury, and the Treasury has consented to the making of this Order.

3.3 The Regulations are being made under the negative resolution procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

Background

4.1 In March 2015, the Finance Committee of the Fourth Assembly recommended, as part of its inquiry into Best Practice Budget Processes,

that “the Welsh Government work closely with the Wales Audit Office to help ensure that the alignment of the budget and the Welsh Government’s accounts with the Treasury’s budget boundary is completed timeously and successfully”.

4.2 Under current arrangements, there are 3 main documents which set out the financial position of the bodies funded by the Welsh Consolidated Fund;

- the Budget to plan, monitor and control income and expenditure;
- the Annual and Supplementary Budget Motions to gain Assembly approval for income and expenditure; and
- after the year end, the Consolidated Accounts, to report and account for income and expenditure.

The boundaries of each of these documents i.e., the income and expenditure of the bodies which are included, differ for each causing misalignment and, accordingly can make it difficult to understand the links and inter-relationships between them. This can lead to a lack of transparency and understanding of the Welsh Government public expenditure.

4.3 Budget Motions voted by the National Assembly for Wales were aligned to the Welsh Government core account boundary. This was a different boundary to that used for the Welsh Government Consolidated Accounts and was subsequently different again to the boundary used for the HM Treasury Budget. The first two phases of alignment corrected the material differences.

4.4 Alignment ensures that the Welsh Government’s consolidated accounts use the same boundary for the Budget Motions as that used by HM Treasury for the control of public expenditure, where those bodies are designated and material. Alignment will mean that the scope of the main control mechanisms is consistent.

Purpose

4.5 The 2019 Order amends the Government of Wales Act 2006 (Budget Motions and Designated Bodies) Order 2018 that designates specified bodies in relation to the Welsh Ministers for the purpose of including within a Budget motion the resources expected to be used by those bodies.

Effect

4.6 The designation of the bodies in the Order will allow closer alignment of the Budget Motions to the existing Welsh Government Consolidated Accounts Boundary. The resources expected to be used by the designated bodies can therefore be included within a Budget Motion replacing the cash funding they receive.

4.7 The Order, therefore, aligns the HM Treasury budget boundary to the Budget Motions and the Welsh Government Consolidated Accounts, enabling expenditure to be more easily tracked through the Budget Motions and

Consolidated Accounts process. This will provide the benefits of increased transparency and understanding of Welsh public expenditure, making it easier for the Assembly, and the wider public, to understand and challenge spending plans and outturn. In turn, this should contribute to better involvement and awareness of public expenditure in Wales, therefore, indirectly contributing to well-being goals.

4.8 The Order leads to a more efficient approach to the impact on scrutiny of Budget Motions by the Finance Committee and the consolidated accounts by the Public Accounts Committee as variances between budget and outturn will be more consistent. In addition, the number of reconciliations required within the schedules supporting the Budget Motions will be reduced.

4.9 There would be no impact on the MEG budgets and limited impact on preparation of the consolidated accounts.

4.10 The Order does not amend or consolidate any other piece of legislation.

5. Consultation

5.1 A 12 week consultation took place from 1 May 2019 to 31 July 2019 on amending the Government of Wales Act 2006 (Budget Motion and Designated Bodies) Order 2018. This was targeted at the remaining arms-length bodies.

5.2 As a result of the responses to the consultation a recommendation was made to designate Health Education and Improvement Wales, International Business Wales Limited and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales in the 2019 Order, where no issues of budgeting and accounting have been identified, and postpone the designation of the remaining bodies.

5.2 HM Treasury were consulted in accordance with section 126A(6) GOWA 2006, on the three arms-length bodies proposed for designation.

5.6 The remaining arms-length bodies are expected to be designated by 2021-22.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

6.1 A Regulatory Impact Assessment has not been prepared to accompany the Order; it is not expected to impose any cost on business, local government or the voluntary sector. This is consistent with the Welsh Ministers' Regulatory Impact Assessment Code for Subordinate Legislation.

6.2 Bodies to be designated in the Order already form part of the Welsh Government budgetary controls and so Welsh Government Groups are already monitoring in-year spending.

Item 3.5 SL(5)473 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt dalu'r dreth gyngor.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013. Maent yn uwchraddio rhai ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a lefel y gostyngiad sy'n dilyn. Maent hefyd yn gwneud rhai diwygiadau technegol a chanlyniadol.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i Reoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o Wahanol Ryw) 2019 a chyfres o reoliadau a fydd yn gweithredu darpariaeth yn Neddff Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at "erthygl 3... o Orchymyn Mewnfudo (Gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) (Ymadael â'r UE) 2019 a wnaed o dan adran 3A o [Ddeddf Mewnfudo 1971]" (Pwyslais wedi'i ychwanegu).

Gofynnwn pam bod angen cyfeirio at y ffaith bod Gorchymyn 2019 wedi'i wneud o dan adran 3A o Ddeddf Mewnfudo 1971, a beth fyddai wedi bod yn wahanol pe bai'r Rheoliadau wedi cyfeirio yn syml at erthygl 3 o Orchymyn 2019 (heb nodi'r pŵer a ddefnyddiwyd i wneud Gorchymyn 2019).

Mae'r un pwynt yn codi mewn perthynas â'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ar 30 Mawrth 2019, roedd sail aros newydd wedi'i greu ar gyfer gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a'r Swistir o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS). Yr EUSS



yw'r cyfrwng y gall gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd, sy'n preswyllo yn y DU erbyn y dyddiad penodedig, ei ddefnyddio i wneud cais am statws mewnfudo yn y DU a fydd yn gwarchod eu hawliau a'u hawl i aros yn y DU. Y dyddiad penodedig a bennwyd os yw'r DU yn taro cytundeb â'r UE yw 31 Rhagfyr 2020, a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i'r EUSS yw 30 Mehefin 2021. Os yw'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, bydd angen i wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fod yn byw yn y DU cyn i'r DU adael yr UE er mwyn gwneud cais, a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yn yr achos hwnnw fydd 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r ddarpariaeth yng Nghynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ynglŷn â phobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr wedi'i diweddar, a hynny er mwyn egluro nad yw caniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i neu i aros sy'n cael ei roi o dan yr EUSS yn hawl berthnasol i breswyllo at ddibenion bod yn breswlydd arferol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu nad yw nifer o hawliau i breswyllo a sefydlwyd ar gyfer gwladolion o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE yn hawliau perthnasol i breswyllo at ddibenion sefydlu statws preswlydd arferol.

Ymateb y Llywodraeth

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 28 o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (Personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr). Mae'r diwygiad yn mewnosod nifer o hawliau newydd i breswyllo a bennwyd ar gyfer gwladolion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn cysylltiad ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. Gwneir yr un ddarpariaeth yn union yn rheoliad 15 sy'n diwygio paragraff 19 yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Mae cynsail i'r dull drafftio a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at yr adran berthnasol yn Neddf Mewnfudo 1971. Gweler, er enghraifft, rheoliad 28(5)(e) o Reoliadau Gofynion Rhagnodedig 2013 a pharagraff 19(5)(e) o Reoliadau Cynllun Diofyn 2013. Mae hefyd yn gyson â darpariaeth ar gyfer Ymadael â'r UE a wneir mewn Rheoliadau eraill diweddar a wnaed gan Weinidogion Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Gweler, er enghraifft, rheoliad 2(3) o [Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd \(Cymhwysra\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2019](#) a rheoliad 2(3) o [Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd \(Cymhwysra\) \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2019](#). Mae'r ddwy set o Reoliadau yn cyfeirio at Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3 o Ddeddf 1971.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

29 Tachwedd 2019



Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 3, 5, 7(b) i (e) a 9(b) i (d) yn cael eu gwneud o ganlyniad i gyflwyno Absenoldeb a Thâl Profedigaeth Rhiant ar gyfer rheini cymwys o dan bwerau y darperir ar eu cyfer yn Neddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 12, 14 a 17 i 22.

Mae'r diwygiad i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliad 4 yn cael ei wneud o ganlyniad i Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru etc) 2019 a rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer partneriaethau sifil rhwng pobl o rywiau gwahanol. Mae'r diffiniad o "cwpl" wedi ei ddiwygio er mwyn cynnwys dau o bobl sy'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn bartneriaid sifil. Gwneir yr un diwygiad mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 13.

